# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Chwefror

2021

Amser: 09.02 - 09.13

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Mark Isherwood AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Nododd y Pwyllgor Busnes y trefniadau ar gyfer yr eitem ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru, gan gynnwys y byddai Aelodau'r Senedd Ieuenctid yn bresennol yn y Cyfarfod Zoom cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn a than ddiwedd yr eitem.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.36pm.

**Dydd Mercher**

- Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 12.45.
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y ddwy Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.15pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 2 Mawrth 2021 –**

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) (Rhif 2) (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 17 Mawrth 2021 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Gweithio o Bell: y Goblygiadau i Gymru (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: A ddylid datganoli darlledu? (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (30 munud)

### 3.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar ddwy ddeiseb Canolfan Ganser Felindre ar 3 Mawrth, a dadl ar 'P-05-1056 Rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai mewn ardaloedd gwledig a thwristiaeth yng Nghymru' ar 17 Mawrth.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i graffu arno gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 25 Mawrth 2021;

- cyfeirio'r Memorandwm ar Fil y Lluoedd Arfog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 25 Mawrth 2021;
- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 2) ar y Bil Amgylchedd yn ffurfiol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i graffu arno gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 18 Mawrth 2021; a
- nodi dyddiadau'r ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) (Rhif 2) (2 Mawrth) a'r Bil Cam-drin Domestig a'r Bil Gwasanaethau Ariannol (y ddwy ar 16 Mawrth).

## 4.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 1 Mawrth fel dyddiad cau i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.